# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2023

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, N.Blackmore, R.Crowhurst, H.Jones, J.Merrifield, C.Barnard, K.Windsor-Brown, R.Bowen a/ac G.White

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cynghorydd S K Hunt bawb i'r cyfarfod.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cyng. N Jenkins | Gan ei bod hi'n Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd yr Allt-wen Mae'r Pwyllgor Safonau wedi rhoi gollyngiad iddi siarad a phleidleisio. Ond ar ôl ceisio cyngor ar ei rôl ddeuol, teimlai gan fod un o'r ysgolion yn cael ei hystyried byddai'n gweithredu ar ei ollyngiad i siarad am yr eitem hon yn |

| | |
|---|---|
| | unig. |
| Y Cyng. A Llewellyn,<br>Y Cyng. W Griffiths<br>Y Cyng. S Hunt<br>Y Cyng. J Hurley<br>Y Cyng. S Jones<br>Y Cyng. S Harris | Mae pob un ohonynt yn llywodraethwyr ysgol ac mae ganddynt ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio. |

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU – RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION – CYNNIG I SEFYDLU YSGOL CYFRWNG SAESNEG 3-11 OED I DDISODLI YSGOLION CYNRADD YR ALLTWEN, GODRE’R GRAIG A LLANGIWG (WEDI’I AMGÁU O FEWN PAPURAU’R CABINET)**

Trafododd Aelodau'r Cabinet y cynnig a chrynhodd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Castell-nedd Port Talbot, y Cyng. S K Hunt, y drafodaeth. Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr holl waith a wnaed fel rhan o'r broses, am eu proffesiynoldeb, eu goddefgarwch a'u cyngor.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Diwylliant os nad oedd Aelodau'r Cabinet yn dewis cefnogi'r argymhellion, byddant yn mynd yn erbyn cyngor y swyddogion.

**Penderfyniad:**

Gwrthod argymhellion y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes yn yr adroddiad am y rhesymau canlynol:

- Pellter y safle newydd o Godre'r-graig yn benodol a cholli addysg gynradd o'r gymuned honno yn dilyn cau adeilad gwreiddiol yr ysgol. Mae pryder y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar les y plant.

- Mae'n rhaid i ddiogelwch y briffordd fod yn flaenoriaeth  a theimlai Aelodau’r Cabinet nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am effaith mwy o draffig a llwybrau at yr ysgol ar y cam hwn.

- Clywodd Aelodau’r Cabinet bryderon am yr effaith bosib ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr un ardal a'r ffaith y gallai lleihau nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg lleol ac effeithio ar ardal sy'n sensitif yn ieithyddol.

- Dangosodd yr ail ymgynghoriad, fel yr un cyntaf, fod y mwyafrif o'r tair cymuned yn gwrthwynebu'r cynlluniau hyn.   Roedd Aelodau’r Cabinet am archwilio ffyrdd i gadw ysgolion cynradd dichonadwy yn eu cymunedau eu hunain. Mae gwersi i'w dysgu o ran sut rydym ni fel cyngor yn ymgynghori â chymunedau am ddyfodol ysgolion ac addysg ar gam cynnar.

## 6. <u>EITEMAU BRYS</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**